

**Gyda chynifer o bobl yn chwilio am waith – a chymaint o swyddi'n cael eu hysbysebu – mae angen i chi fod yn siŵr eich bod yn gwneud cais am swydd ddilys.**



**Peidiwch â chael eich twyllo gan sgâm cyflogaeth.**



[www.getsafeonline.org](http://www.getsafeonline.org)

Fel sawl agwedd arall ar fywyd, mae pandemig COVID-19 wedi troi'r farchnad swyddi wyneb i waered, gyda llawer o fusnesau'n cau, diswyddiadau a gweithwyr mudol yn dychwelyd adref.

Erbyn hyn, wrth i'r cyfyngiadau gael eu llacio ac wrth i fywyd ddychwelyd i normal, mae'r farchnad gyflogaeth yn prysuro ac mae llawer mwy o swyddi'n cael eu hysbysebu – yn bennaf ar-lein – gyda llawer iawn o geisiadau ar gyfer pob un.

Mae sgamiau cyflogaeth wedi bob yn gyffredin erioed, gan amrywio o godi tâl am wiriadau DBS nad ydynt yn bodoli neu wiriadau CV i wyngalchu

arian. Ond mae seiberdroedwyr yn manteisio ar y sefyllfa bresennol, ac mae 74% o geiswyr gwaith yn gwneud cais am swyddi nad oeddent yn ddilys yn ystod y pandemig\*. Os byddwch yn llyncu'r abwyd, gallech ddiodef twyll ariannol neu dwyll hunaniaeth, neu hyd yn oed gael cofnod troseddol yn ddiarwybod i chi. Darllenwch ein cyngor arbenigol, a pheidiwch â gadael i hyn ddigwydd i chi.


*\*Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd IJobsAware*



#safejobhunting

## Awgrymiadau defnyddiol ar gyfer chwilio am swydd yn ddiogel

- **Gwnewch waith ymchwil manwl** er mwyn sicrhau bod gwefannau swyddi, asiantaethau cyflogaeth a darpar gyflogwyr yn ddibynadwy, a bod ganddynt gyfeiriad ffisegol a rhif ffôn llinell dir.
- Wrth **restru eich proffil**, dewiswch yr opsiwn i'w gadw'n gyhoeddus, yn gyfrinachol neu'n breifat yn unol â'ch anghenion.
- **Peidiwch byth â datgelu gwybodaeth** megis eich rhif yswiriant gwladol, pasbort neu drwydded yrru, gwybodaeth am eich cyfrif banc/cerdyn talu na'ch dyddiad geni, naill ai wedi'u teipio ar eich CV neu ar y ffurflen gais, neu mewn llyniau/sganiau. Gallai hyn arwain at achos o ddwyn hunaniaeth. Dim ond pan fyddwch wedi cyfarfod â'r cyflogwr, wedi cael y swydd ac yn fodlon bod popeth yn ddilys y dylech ddarparu'r rhain.
- Cofiwch ddyfeisio **cyfrineiriau cryf**, eu cadw'n ddiogel a pheidio â'u defnyddio ar fwy nag un cyfrif ar-lein na gwefan arall. Darllenwch ein cyngor ar wefan Get Safe Online ar sut i ddyfeisio cyfrineiriau cryf a'u cadw'n ddiogel.
- Os byddwch yn cael neges e-bost yn honni ei bod gan ddarpar gyflogwr sydd wedi gweld eich CV ar wefan swyddi, **byddwch yn ofalus wrth glicio ar ddolenni** a sicrhewch eu bod yn arwain i hysbyseb swydd ddilys.
- **Peidiwch â ffonio hysbysebwr ar gyfer cyfweliadau dros y ffôn** – gallai fod yn rif ffôn premiwm drud. Yn lle hynny, sicrhewch mai'r darpar gyflogwr sy'n eich ffonio chi.
- Gwyliwch rhag swyddi sy'n cynnig **incwm am ychydig iawn o waith** neu sy'n ymddangos yn rhy uchel i fod yn wir, nad oes angen unrhyw brofiad neu sy'n pwyso arnoch i wneud cais ar unwaith. Gallai'r rhain eich cynnwys mewn gweithgareddau gwyngalchu arian neu weithgareddau cefnogi gwyngalchu arian.
- Cofiwch y gellir gweld llawer o hysbysebion swyddi twyllodrus ar **safleoedd cyfryngau cymdeithasol**.
- **Gwyliwch rhag ceisiadau am daliadau o flaen llaw** am wasanaethau CV, gwiriadau DBS neu wiriadau diogelwch eraill, neu luniau o'ch pen a'ch wyneb.
- **Peidiwch â chynnal y broses gyfan** drwy'r wefan, negeseuon e-bost, negeseuon testun neu adnodd negeseua: bydd y rhan fwyaf o gyflogwyr dilys yn cynnal cyfweiliad wyneb yn wyneb (neu fideo) a thrwy hynny, gallwch eu gweld nhw hefyd.
- Sicrhewch fod darpar gyflogwr yn ddilys **cyn cyfarfod am gyfweiliad wyneb yn wyneb**, er mwyn sicrhau nad oes risg i'ch diogelwch personol.



Os ydych wedi dioddef sgâm recriwtio, rhowch wybod i **SAFERjobs** amdano yn [www.safer-jobs.com](http://www.safer-jobs.com)

Os ydych wedi cael eich twyllo o ganlyniad i wneud cais am swydd, rhowch wybod i Action Fraud yn [www.actionfraud.police.uk](http://www.actionfraud.police.uk) neu drwy ffonio **0300 123 2040**

I gael cyngor cynhwysfawr, ymarferol a diduedd ar chwilio am swydd yn ddiogel ar-lein, ewch i [www.getsafeonline.org/personal/articles/job-searching](http://www.getsafeonline.org/personal/articles/job-searching)

# Get Safe Online

Get Safe Online yw'r ffynhonnell fwyaf blaenllaw o wybodaeth a chyngor ar ddiogelwch ar-lein yn y DU, i'r cyhoedd a busnesau bach. Mae'n bartneriaeth nid er elw rhwng y sector cyhoeddus a'r sector preifat sydd wedi'i chefnogi gan nifer o adrannau'r llywodraeth, asiantaethau gorfodi'r gyfraith a sefydliadau blaenllaw ym maes diogelwch y rhyngwrwyd, bancio a manwerthu.

I gael rhagor o wybodaeth a chyngor diduedd arbenigol sy'n hawdd ei ddilyn ar ddiogelu eich hun, eich teulu, eich arian, eich dyfeisiau a'ch gweithlu, ewch i [www.getsafeonline.org](http://www.getsafeonline.org)

Os byddwch yn credu eich bod wedi cael eich twyllo ar-lein, rhowch wybod i Action Fraud, sef canolfan genedlaethol y DU ar gyfer rhoi gwybod am dwyll a seiberdrosedd, drwy ffonio **0300 123 20 40** neu drwy fynd i'r wefan [www.actionfraud.police.uk](http://www.actionfraud.police.uk)

Yn yr Alban, gallwch roi gwybod am dwyll i Heddlu'r Alban drwy ffonio 101.



[www.getsafeonline.org](http://www.getsafeonline.org)

## OFFICIAL PARTNERS

**TESCO**

**kaspersky**

**Gumtree**

**Standard Life**

**first direct**

**M&S BANK**

**HSBC**

**Royal Bank of Scotland**

**NatWest**

**LLOYDS BANK**

**HALIFAX**

**BANK OF SCOTLAND**

**creativevirtual**  
The science of conversation™

**ClearScore**

**ROYAL AIR FORCE**

**CITY OF LONDON POLICE**  
National Police Chiefs' Council

**NPCC**  
National Police Chiefs' Council

**NATIONAL TRADING STANDARDS**

**eCrime Team**  
Protecting Consumers  
Safeguarding Businesses

**cfias**  
Leaders in fraud prevention

**Ofcom**

**VICTIM SUPPORT**

**EUROPEAN POLICE CENTRE**

**EUROPOL EC3** | European Cybercrime Centre

**neighbourhood ALERT**

**ActionFraud**  
National Fraud & Cyber Crime Reporting Centre  
[www.actionfraud.police.uk](http://www.actionfraud.police.uk)

**METROPOLITAN POLICE**